

**CYFARFOD PWYLLGOR PENSIYNAU**

**DYDDIAD 16 MAI 2019**

**TEITL PRESENOLDEB MEWN CYNADLEDDAU**

**PWRPAS DEWIS CYNRYCHIOLWYR I FYNYCHU CYNADLEDDAU**

**AWDUR DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

---

## **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1** Mae'r eitem hon gerbron er mwyn hysbysu'r aelodau am gynadleddau perthnasol a phenderfynu pwy i fynychu ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd.
- 1.2** Mae'r Cyngor yn anfon cynrychiolwyr ar sail rota i nifer o gynadleddau yn ystod y flwyddyn er mwyn cynnal a gwella sgiliau a gwybodaeth aelodau a swyddogion.

## **2. DIGWYDDIADAU "ARFEROL"**

Mae'r 4 gynhadledd "arferol" blynyddol canlynol wedi'u trefnu ar gyfer 2019/20 -

- 2.1** 'Summit' Buddsoddi'r LGC, sy'n cael ei gynnal yn y Celtic Manor Resort, Casnewydd ar 4-6 Medi 2019 (**Atodiad 1**). Fel arfer, mae'r Pennaeth Cyllid neu'r Rheolwr Buddsoddi yn mynychu Seminar Buddsoddi'r LGC, gyda dau aelod o'r Pwyllgor Pensiynau ar sail rota.
- 2.2** 'Summit' blynyddol Russell Investments, sy'n cael ei gynnal yn y Royal Institute of British Architects (RIBA), 66 Portland Place, Llundain ar 13 Tachwedd 2019 (**Atodiad 2**). Yn 2018, aeth un swyddog, y Cadeirydd a dau aelod arall o'r Pwyllgor.
- 2.3** Cynhadledd Flynyddol y 'Local Authority Pension Fund Forum' (LAPFF), sy'n cael ei gynnal yn yr Hilton, Bournemouth ar 4-6 Rhagfyr 2019 (**Atodiad 3**). Y Pennaeth Cyllid neu'r Rheolwr Buddsoddi sy'n mynychu Cynhadledd Flynyddol yr 'LAPFF', gydag un aelod o'r Pwyllgor Pensiynau (fel arfer y Cadeirydd) ac un aelod o'r Bwrdd Pensiwn.
- 2.4** Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL, Cynhadledd "Ymddiriedolwyr" gynt, sy'n cael ei gynnal yn y Principal Hotel, York ar 23-24 Ionawr 2020 (**Atodiad 4**, eitem 10-13). Yn ddiweddar, mae 2 aelod o'r Pwyllgor Pensiynau ac 1 aelod o'r Bwrdd Pensiwn, ynghyd â swyddog, wedi mynychu Cynhadledd Llywodraethu'r CPLIL ym Mryste.

### **3. DIGWYDDIADAU YCHWANEGOL**

- 3.1** Mae'r 'LAPF Strategic Investment Forum' yn cael ei gynnal yn The Grove, Hertfordshire ar 2-4 Gorffennaf 2019 (**Atodiad 5**). Mae'r Pennaeth Cyllid wedi derbyn gwahoddiad personol i fynychu am ddim, ac mae 2 le ychwanegol am ddim i'r aelodau.
- 3.2** Mae'r 'LGC Investment Seminar' yn cael ei gynnal yn Carden Park, Swydd Gaer ar 27-28 Chwefror 2020 (dim manylion pellach ar gael ar hyn o bryd). Yn hanesyddol, cymerwyd un lle am ddim, a gallwn ystyried anfon mwy o aelodau i'r digwyddiad 'lleol' yma.

### **4. GWERTH Y DIGWYDDIADAU**

- 4.1** Gan fod aelodau'r Pwyllgor Pensiynau yn "ymddiriedolwyr" ar gyfer buddsoddiadau gwerth £2bn, mae'n hanfodol fod aelodau yn adeiladu ar ei hyfforddiant sylfaenol ac yn sicrhau gwybodaeth gyfredol o'r cyd-destun buddsoddi / CPLIL trwy fynychu digwyddiadau addas fel rhain.

### **5. ARGYMHELLIAD**

- 5.1** Gofynnir i'r Pwyllgor dewis cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Pensiynau i fynychu'r 6 digwyddiad uchod.